**Dyddiad**/Date 29 Tachwedd 2024
**Gofynnwch am/**Ask for Mynediad a Threfniadaeth Ysgol
**Rhif ffôn**/Telephone 01446 700111
**Ffacs**/Fax
**e-bost**/e-mail admissions@valeofglamorgan.gov.uk
**Eich Cyf/**Your Ref
**Fy Nghyf/**My Ref

Cyngor Bro Morgannwg
Dysgu a Sgiliau
Y Swyddfeydd Dinesig, Heol Holltwn, Y Barri, CF63 4RU
Ffôn: (01446) 700111
www.bromorgannwg.gov.uk

The Vale of Glamorgan Council
Learning and Skills
Civic Offices, Holton Road, Barry CF63 4RU
Phone: (01446) 700111
www.valeofglamorgan.gov.uk

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

Annwyl Riant/Warcheidwad

**ADDYSG GYNRADD: DERBYNIADAU I'R DOSBARTH DERBYN YM MIS MEDI 2025**

Gan y bydd eich plentyn yn dechrau yn y Dosbarth Derbyn ym mis Medi 2025, mae'n bryd gwneud cais am le yn yr ysgol o'ch dewis. Gallwch ddarllen trefniadau'r Awdurdod ar gynnig lleoedd mewn dosbarthiadau derbyn yn adran derbyniadau ein gwefan (https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/living/schools/admissions/primary/Primary-School-Admissions.aspx) a thrwy ddarllen y Canllaw Rhieni i Dderbyniadau i Ysgolion. Darllenwch y canllaw cyn gwneud cais, gan ei fod yn rhoi'r holl wybodaeth berthnasol am y broses dderbyn i ysgolion, gan gynnwys y meini prawf gordanysgrifio a ddefnyddir i gynnig lleoedd pan fo mwy o geisiadau na lleoedd mewn ysgol. Os nad oes gennych fynediad i'r rhyngrwyd, gallwch ofyn am gopi caled o'r canllaw gan y cyngor neu gan ysgol eich plentyn. Rhaid i'ch cais gael ei wneud erbyn y dyddiad cau sef **24 Ionawr 2025**. Yna cewch wybod am y canlyniad trwy lythyr a anfonir ar **16 Ebrill 2025**. Os na wnewch gais am le yn un o ysgolion cymunedol y Cyngor erbyn y dyddiad cau, a bod mwy o geisiadau na lleoedd i'r ysgol honno, mae posibilrwydd na fydd eich plentyn yn cael lle yn eich ysgol leol.

**Ar y ffurflen gais, bydd angen i rieni gyflwyno tri dewis ar gyfer ysgolion cynradd yn nhrefn blaenoriaeth. Yn y rhan fwyaf o achosion gallwn gynnig eich dewis cyntaf i chi, ond nid yw hyn bob amser yn bosibl. Trwy roi tri dewis ar eich cais, rydych yn fwy tebygol o gael lle mewn ysgol yr ydych am ei chael yn hytrach na derbyn cynnig i ysgol a all fod gryn bellter i ffwrdd neu nad yw'n un o'ch dewisiadau. Mae angen i chi ddefnyddio'r holl ddewisiadau sydd ar gael i chi er mwyn sicrhau lle mewn ysgol gynradd i'ch plentyn ar gyfer mis Medi 2024 gan fod lleoedd yn brin iawn mewn nifer o ysgolion y llynedd.**

**Pontio o'r Dosbarth Meithrin i'r Dosbarth Derbyn**

Cofiwch: os yw eich plentyn eisoes yn mynychu dosbarth Meithrin mewn ysgol ym Mro Morgannwg, nid oes modd gwarantu y bydd yn gallu cael lle yn nosbarth Derbyn yr ysgol honno. Mae'r holl geisiadau'n cael eu hystyried yn unol â'r Meini Prawf Gordanysgrifio Cynradd. Bydd gofyn i rieni lenwi ffurflen gais ar gyfer lle mewn dosbarth Derbyn mewn ysgol hyd yn oed os yw eu plentyn yn mynychu dosbarth Meithrin yr ysgol honno.

**Proses Derbyniadau Ar-lein**

Gallwch wneud cais trwy ein proses derbyniadau ar-lein. Mae'n syml ac yn gyflym, ac yn ffordd haws i rieni wneud cais. Cyn cofrestru a gwneud cais ar-lein, rhaid i chi gofrestru gan ddefnyddio cyfeiriad e-bost dilys. Mae tudalen Derbyn Ar-lein y cyngor ar ein gwefan yn cynnwys cyfarwyddiadau ar sut i wneud hyn trwy'r ddolen "Gwneud Cais Nawr" yn: https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/living/schools/admissions/primary/Primary-School-Admissions.aspx

Er ei bod yn fwy diogel gwneud cais ar-lein ac y byddwch yn cael neges electronig i gadarnhau bod eich cais wedi dod i law, mae ffurflenni cais papur ar gael i'r sawl sydd heb fynediad i'r rhyngrwyd. Os hoffech ffurflen gais bapur, cysylltwch â ni drwy e-bost neu dros y ffôn fel y gallwn anfon un atoch. Cofiwch fod y dyddiad cau'r un fath, ni waeth pa fath o gais a wnewch.

**Cais am le mewn Ysgolion Ffydd**

Rhaid gwneud ceisiadau am Ysgol Gynradd Gatholig San Helen ac Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Pendoylan trwy'r ysgolion eu hunain gan mai eu corff llywodraethu nhw yw eu hawdurdod derbyn. Dylech gysylltu â’r ysgolion uchod cyn gynted â phosibl rhag ofn bod y dyddiadau cau’n wahanol.

**Cynllun Trefniadau Derbyn Cydlynol**

Mae’r Cyngor yn cydlynu derbyniadau ar gyfer saith ysgol gynradd bartner sy’n gweithredu fel eu hawdurdod derbyn eu hunain. Ar gyfer grŵp oedran Derbyn blwyddyn academaidd 2025-26, cytunodd cyrff llywodraethu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru yr Holl Seintiau, Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llansanwyr, Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Saint Andras, Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Saint-y-brid, Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant, Ysgol Gynradd Gatholig Sant Joseff ac Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Wig a Marcroes i gymryd rhan yn y cynllun. Yn ogystal ag Ysgolion Cymunedol Bro Morgannwg, gallwch hefyd ymgeisio am leoedd yn yr ysgolion hyn drwy ddefnyddio’r gwasanaeth ymgeisio ar-lein fel y’i nodir uchod. Sicrhewch eich bod wedi darllen a deall yn union y meini prawf derbyn ar gyfer pob ysgol yr ydych yn ymgeisio ar ei chyfer.

**NEWIDIADAU TREFNIADAETH YSGOLION**

**Ardal y Bont-faen**
Er mwyn ateb y galw cynyddol am addysg gynradd yn ardal y Bont-faen, daeth Ysgol Gyfun y Bont-faen yn ysgol 3-19 oed o fis Medi 2023, gan ddarparu 210 o leoedd cynradd. Bydd y 210 o leoedd cynradd yn cael eu cyflwyno'n raddol gyda 30 o leoedd derbyn ar gael ym mis Medi 2025.

Bydd y dalgylch ar gyfer y cyfnod cynradd yn Ysgol Gyfun y Bont-faen yn adlewyrchu dalgylch Ysgol Gynradd y Bont Faen, sydd hefyd yn darparu 210 o leoedd cynradd ar gyfer yr ardal. **Fel gyda’r holl geisiadau, mae'n bwysig bod rhieni'n cyflwyno mwy nag un dewis ysgol ar eu ffurflen gais.**

**Ysgol St Baruc**
Er mwyn bodloni gofynion y dyfodol ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg yn ardal y Barri, cafodd Ysgol St Baruc eu adleoli i ysgol gynradd newydd â 420 o leoedd yng Nglannau’r Barri ym mis Ebrill 2023. Bydd y 420 o leoedd cynradd yn cael eu cyflwyno'n raddol gyda 60 o leoedd derbyn ar gael ym mis Medi 2025. **Fel gyda’r holl geisiadau, mae'n bwysig bod rhieni'n cyflwyno mwy nag un dewis ysgol ar eu ffurflen gais.**

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â’r Tîm Mynediad Ysgolion gan ddefnyddio’r manylion cyswllt uchod.

Yn gywir

Tîm Mynediad a Threfniadaeth Ysgolion
Y Gyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau